# PWYLLGOR CRAFFU'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A DIOGELWCH CYMUNEDOL

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **21 Mawrth 2024**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd C.Galsworthy** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd H.C.Clarke** |
| **Cynghorwyr**: | H.Davies, S.E.Freeguard, J.Jones, S.Rahaman, P.D.Richards a/ac D.Whitelock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | R Davies, J.Hodges, C.Howard, A.Jarrett, A.Thomas, K.Warren, E.Wellington, A.Bradshaw, L.Morris, S.Waite, C.Jones, Ms.N.Aleksanyan, D.Bartley, D.Harding, C.Low, S.McCluskie, N.Jones, E.O'Brien, H.Short, V.Smith, M.Weaver, R.Griffiths, D.Thomas, M.Edwards. S.Jones a/ac P.Chivers |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr J.Hale, S.Harris a/ac A.Llewelyn |

---

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cadarnhawyd y byddai'r Pwyllgor yn craffu ar eitemau 7, 8, 9, 10, 15 ac 18 ar Agenda Bwrdd y Cabinet.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2024 fel cofnod gwir a chywir.

## 4. RHANNU GWYBODAETH MEWN PERTHYNAS Â'R BROSES PONTIO RHWNG GWASANAETHAU PLANT AC OEDOLION

Rhoddodd swyddogion drosolwg o'r adroddiad a gynhwysir yn y pecyn agenda.

Gofynnodd yr aelodau i swyddogion a oedd unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth i helpu pobl ifanc ag anghenion cymhleth i bontio i'r gwasanaethau oedolion.

Nododd Pennaeth y Gwasanaethau Plant bwysigrwydd cael gweithlu profiadol ar draws y Gwasanaethau Plant ac Oedolion i gefnogi pobl ifanc sy'n agored i niwed a rheoli risgiau. Bydd y panel yn helpu i gefnogi'r gyfarwyddiaeth gyfan i nodi a chefnogi pobl ifanc drwy'r cyfnod pontio a chydnabod lle y gellir lleihau'r gefnogaeth. Dywedodd swyddogion wrth aelodau fod nifer o ffrydiau gwaith gwahanol wedi'u sefydlu, mae'r staff yn cyfarfod i benderfynu a yw'r cynlluniau'n briodol ac i nodi adnoddau sydd ar gael a bylchau. Nodwyd y gall pobl ifanc fod mewn gofal preswyl am amrywiaeth o resymau cymhleth, a bod angen pecynnau gofal uchel ar rai ohonynt.

Holodd yr aelodau a oedd unrhyw becynnau cymorth ar gael i deuluoedd sydd wedi gofalu am bobl ifanc mewn lleoliad byw â chymorth.

Dywedodd swyddogion wrth aelodau ei bod hi'n bwysig bod sgyrsiau cynnar yn cael eu cynnal gyda theuluoedd i helpu i gynllunio ar gyfer pontio ar oedran iau.  Mae'r Panel Pontio yn agored i'r holl wybodaeth bontio a bydd yn cael ei defnyddio'n strategol ac yn weithredol. Bydd swyddogion yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu ymhen chwe mis ar sut mae'r panel wedi'i gwreiddio mewn arfer.

Ystyriodd yr aelodau’r adroddiad fel y'i dosbarthwyd yn y pecyn agenda.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

5. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

**Adroddiad Perfformiad Chwarterol Chwarter 3**

Dywedodd yr aelodau ei bod hi'n anodd dilyn cynllun newydd yr Adroddiad Perfformiad.

Diolchodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai i'r aelodau am yr adborth, y gellid ei ddefnyddio i adolygu'r ffordd y caiff y data ei gyflwyno. Mae'r adroddiad presennol yn cynnwys cyflwyniadau corfforaethol a dadansoddiad o dueddiadau. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr y byddai'n ddefnyddiol gweithio gydag aelodau'r pwyllgor i nodi pa wybodaeth fyddai'n berthnasol i'r pwyllgor wrth symud ymlaen.

Cydnabu'r Cadeirydd fod sesiynau Hyfforddiant Data Perfformiad wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod ond awgrymodd y dylid trefnu sesiwn arall i ail-ymweld â data sy'n berthnasol i'r pwyllgor i gynorthwyo dealltwriaeth aelodau.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad pellach ynghylch pam nad oedd peth o'r data yn addas i'w gymharu.

Cyfeiriodd y Pennaeth Tai a Chymunedau at y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ar dudalennau 39-47 yr adroddiad a dywedodd wrth aelodau nad oedd eitemau nad oeddent yn addas i'w cymharu wedi cael eu hadrodd arnynt yn y blynyddoedd blaenorol. Roedd y data'n ymwneud â nifer o DPA newydd a ddefnyddir i fonitro gweithgarwch newydd ac effeithiau a fwriadwyd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod gwaith wedi'i wneud yn flaenorol gydag aelodau ynghylch nodi sut y gellid cyflwyno gwybodaeth perfformiad ystyrlon. Gellir ailymweld â'r gwaith hwn a byddai'n ddefnyddiol cynnwys aelodau er mwyn penderfynu pa wybodaeth fyddai'n ddefnyddiol i'r pwyllgor.

Cyfeiriodd yr aelodau at dudalen 42 o'r adroddiad a gynhwysir ym mhecyn yr agenda a gofynnwyd am ragor o wybodaeth am Banel y Sianel.

Cadarnhaodd y Pennaeth Tai a Chymunedau fod Panel y Sianel yn grŵp amlasiantaeth a sefydlwyd i ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â phobl a all gael eu denu i mewn i weithgaredd terfysgol. Nid yw'r DPA yn rhoi arwydd clir o'r sefyllfa bresennol. Yn y flwyddyn flaenorol, nodwyd bod saith o bobl wedi dod yn llai agored i niwed ar ôl iddynt

gael eu hatgyfeirio i’r panel, fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn hon, dim ond un atgyfeiriad oedd. Mae angen adolygu'r DPA wrth symud ymlaen i ddarparu darlun mwy cywir.

Cadarnhaodd swyddogion fod Panel y Sianel yn eistedd o fewn y Tîm Diogelwch Cymunedol; mae'r Swyddog Cydlyniant Cymunedol yn cydlynu'r Panel, sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Swyddog Diogelu. Gellir cyfeirio at Banel y Sianel os codir pryderon lefel isel am ymddygiad a diddordebau unigolyn. Mae'r fwrdeistref sirol yn cael ei hystyried yn ardal risg isel ac mae'r niferoedd atgyfeirio yn isel ond mae'n bwysig nodi a mynd i'r afael â phryderon. Mae angen gwaith parhaus ar lefel gorfforaethol i atgoffa staff a phartneriaid y Panel am y llwybr atgyfeirio a'r math o gymorth a chefnogaeth sydd ar gael.

Cyfeiriodd yr aelodau at dudalen 45 o'r adroddiad a gynhwysir ym mhecyn yr agenda a gofynnwyd am ychwanegu eitem at y Flaenraglen Waith , i amlinellu sut mae aelwydydd yn cael eu hatal rhag cyflwyno fel pobl ddigartref, er mwyn galluogi aelodau i gefnogi preswylwyr.

Croesawyd yr ychwanegiad i'r Flaenraglen Waith gan y Pennaeth Tai a Chymunedau a nodwyd bod Castell-nedd Port Talbot ychydig o dan y ffigur cenedlaethol o 59%. Mae'r DPA yn adrodd am bobl y mae ganddynt hawl i ddyletswydd atal digartrefedd statudol. Mae newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth yn gofyn am gyfnodau rhybudd hirach gan landlordiaid; mae staff yn gweithio gyda phobl yn gynharach, cyn bod dyletswydd statudol arnynt. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ganfod sut y gellir casglu'r data i roi adlewyrchiad cliriach o'r gwaith sy'n cael ei wneud.

Yn dilyn gwaith craffu, nododd yr aelodau'r adroddiad.

**Cynllun Gweithredu Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot ar gyfer Niwrowahaniaeth (awtistiaeth a chyflyrau eraill) 2024-2027**

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am yr adroddiad a oedd yn syml i'w ddarllen a'i ddeall. Nodwyd, er bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio mewn partneriaeth ag Iechyd ac Addysg, mae'r adroddiad yn ymwneud â darpariaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol ar draws y Gwasanaethau Plant ac Oedolion.

Diolchodd y swyddogion i'r Cadeirydd am ei gefnogaeth a rhoddwyd trosolwg byr o'r adroddiad a'r broses ymgynghori arfaethedig fel a fanylwyd o fewn pecyn agenda Bwrdd y Cabinet.

Dywedodd y Cadeirydd y gall ffurflenni fod yn rhwystr i unigolion niwrowahanol ond roedd y ffurflen ymgynghori yn agored er mwyn cael barn yr unigolyn.

Cadarnhaodd swyddogion fod amser ar gael cyn i'r ymgynghoriad ddechrau i adolygu'r ffurflen er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd ei defnyddio i blant a phobl ifanc, ac yn hawdd i oedolion ag anawsterau gwybyddol gymryd rhan.

Gofynnodd yr aelodau i swyddogion roi eglurhad pellach o'r cylch gwaith Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cadarnhaodd swyddogion fod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio mewn partneriaeth ag Iechyd ac Addysg. Mae nod y cynllun strategol yn  bwrpasol eang, a bydd yn cynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n destun cynllun a reolir gan ofal, sy'n agored ar sail gofal a chymorth. Mae gwaith yn cael ei wneud gyda phartneriaid i gefnogi pobl ifanc o oedran ysgol, i ddiwallu eu hanghenion wrth nodi bylchau. Daw rhai achosion gerbron y Panel Anghenion Cymhleth i sicrhau bod cynlluniau i gefnogi pobl ifanc yn briodol i'w hanghenion penodol. Nododd swyddogion fod rhestrau aros sylweddol o fewn iechyd i bobl ifanc sy'n aros am ddiagnosis, a bod rhestrau aros yn y gwasanaethau oedolion yn hirach nag a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Mae newid yn y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) wedi cael goblygiadau ar gyfer addysg. Fel rhan o'r ymgynghoriad, bydd trafodaethau gyda phartneriaid ehangach a'r gobaith yw y bydd gwaith amlasiantaeth parhaus i gyflawni canlyniadau.

Cyfeiriodd yr aelodau at ddata a gyflwynwyd ar dudalen 99 o'r adroddiad a holwyd a oes cynlluniau i adrodd am anghenion lefel is wrth symud ymlaen.

Cadarnhaodd swyddogion fod rhai pobl ifanc yn cael eu cefnogi drwy wasanaethau statudol mewn timau cymunedol a chan y tîm o amgylch y teulu. Mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas ag ymyrryd yn gynnar ac atal. Mae'r Tîm Plant ag Anabledd yn cynnwys dau weithiwr Portage sy'n gweithio gyda phobl ifanc cyn cael diagnosis ar y cyd â phartneriaid.

Canmolodd yr aelodau'r swyddogion am eu gwaith rhagorol yn y maes hwn a nodwyd bod angen gwneud mwy i gefnogi rhieni, gofalwyr a theuluoedd drwy eu haddysgu am gyflyrau niwroamrywiol a'r effeithiau ar unigolion.

Diolchodd swyddogion i'r aelodau am eu sylwadau a chytunwyd ar bwysigrwydd cynyddu ymwybyddiaeth a hyfforddiant, yn enwedig ymhlith staff y Cyngor, i alluogi cefnogaeth ac atgyfeirio. Mae cysylltiadau eisoes wedi'u gwneud gyda'r gymuned faethu a bydd gofalwyr yn cael eu hystyried fel rhan o'r digwyddiadau ymgynghori gyda chysylltiadau i'r Prif Swyddogion Arweiniol i Ofalwyr. Mae'r Prif Swyddogion yn ymwybodol o'r cynllun a rhoddir ystyriaeth i sut y gellir cefnogi teuluoedd gan ystyried anghenion unigol.

Cytunodd yr aelodau fod ymwybyddiaeth o bwysigrwydd eithafol nid yn unig i deuluoedd ond i bob asiantaeth; gellir gwneud addasiadau bach er budd unigolion niwroamrywiol.

Dywedodd swyddogion wrth aelodau fod yr hyfforddiant a ddatblygwyd drwy Awtistiaeth Cymru (Niwrowahaniaeth Cymru erbyn hyn) wedi symud ymlaen o gynyddu ymwybyddiaeth i ganolbwyntio ar ddealltwriaeth. Mae dolen i'r modiwlau hyfforddi wedi'i chynnwys yn yr adroddiad. Mae trydydd modiwl yn cael ei ychwanegu mewn perthynas ag asesu a all fynd i'r afael â sefyllfaoedd sy'n ymwneud â chynllunio a pharatoi ar gyfer cyfarfodydd â gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae'r modiwlau hyfforddi ar gael yn y parth cyhoeddus gyda dolenni i Iechyd/Addysg/Teulu/Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymunedau. Mae elfennau hyfforddi eraill ar gael ac maent wedi'u targedu'n well ar gyfer cyflyrau penodol.

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad i fynd gerbron Bwrdd y Cabinet.

**<u>Y Siarter Rhianta Corfforaethol</u>**

Rhoddodd swyddogion drosolwg o'r adroddiad a gynhwysir ym mhecyn agenda Bwrdd y Cabinet.

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad i fynd gerbron Bwrdd y Cabinet.

**Polisi ar Gyfraniadau Ariannol ar gyfer Llety Dros Dro**
Rhoddodd swyddogion drosolwg o'r adroddiad a gynhwysir ym mhecyn agenda'r Cabinet.

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad i fynd gerbron Bwrdd y Cabinet.

## 6. COFNOD GWEITHREDU'R PWYLLGOR

Nodwyd Cofnod Gweithredu'r Pwyllgor.

## 7. BLAENRAGLEN WAITH 2023/24

Gofynnodd y Cadeirydd am gyfarfod gyda swyddogion i drafod y Flaenraglen Waith yn fanylach i ystyried meysydd y gallent fod wedi cael eu hanwybyddu hyd yma.

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

## 8. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

## 9. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

Penderfynwyd: gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) ganlynol/canlynol yn unol ag Adran 100a (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a'r paragraffau eithriedig perthnasol o Ran 4 Atodlen 12a y Ddeddf uchod.

## 10. CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU

**Contract prynu yn ôl y galw ar gyfer darpariaeth gofal a chefnogaeth meddiannaeth unigol**

Yn dilyn craffu, nododd yr aelodau'r adroddiad.

**Trefniadau comisiynu ar gyfer datblygu Gwasanaeth Ymateb Symudol CNPT**

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad i fynd gerbron Bwrdd y Cabinet.

**Cynghorydd C.Galsworthy**
**CADEIRYDD**